

Gwella Gyda'n Gilydd: Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym

Adroddiad Adborth Llais Powys | Hydref 2026

Katie Blackburn - Chyfarwyddwr Rhanbarthol, Llais Powys

Pam rydym yn rhannu'r adroddiad hwn

Bydd Llais yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf bob mis yn ystod yr ymgynghoriad Gwell Gyda'n Gilydd. Rydyn ni eisiau i bobl ledled Powys wybod beth rydyn ni'n ei glywed, beth rydyn ni'n ei godi gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb. Mae hyn yn rhan o'n rôl fel y corff annibynnol sy'n sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd yr hyn a glywodd ac a welwyd gan Llais mewn digwyddiadau Gwella Gyda'n Gilydd yn Llanfair-ym-Muallt, Machynlleth, Trefyclo, Llanfyllin, Crucywel ac ar-lein yn ystod mis Hydref 2026. Mae'n disgrifio'r materion a godwyd gan bobl ledled Powys, gan gynnwys pryderon sy'n benodol i gymunedau unigol, a'r hyn a welsom ynghylch sut y cynhaliwyd y digwyddiadau. Mae'n seiliedig ar nodiadau Llais o drafodaethau dan arweiniad Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'n adlewyrchu'r safbwyntiau a rannwyd yn y digwyddiadau hyn; nid yw'n arolwg o bawb ym Mhowys.

Yr hyn a glywsom

Yr oedd pobl a ddaeth i'r digwyddiadau'n poeni am ddyfodol gwasanaethau iechyd ym Mhowys ac eisiau dweud eu dweud. Cafwyd safbwyntiau gwahanol ar rai o'r cynigion, ond mynegwyd pryderon tebyg mewn cymunedau ar draws y sir.

Soniodd pobl am gyrraedd gwasanaethau, a fyddai digon o staff a chymorth yn y gymuned, dyfodol gwelyau mewn ysbytai lleol, a mynediad at ofal brys a phrofion fel pelydr X. Roedd llawer yn croesawu'r syniad o ddarparu mwy o ofal yn nes at adref. Ond roedden nhw eisiau gwybod y byddai gwasanaethau newydd neu estynedig yn barod ac yn gweithio'n ddiogel cyn cwtogi'r gwasanaethau presennol.

Roedd pobl am wybod nid yn unig beth allai newid, ond sut y byddai gwasanaethau'n gweithio'n ymarferol. Gofynnwyd sut roedd anghenion cymunedau gwledig wedi cael eu hystyried a pha gymorth fyddai ar gael tra byddai newidiadau'n cael eu gwneud. Roedd teithio, staffio, gofal cymdeithasol a mynediad at wasanaethau lleol yn codi dro ar ôl tro.

Sut roedd y digwyddiadau ymgysylltu yn gweithio

Edrychodd Llais hefyd ar sut roedd y digwyddiadau'n cael eu cynnal ac a oedd pobl yn cael cyfle teg i gymryd rhan. Gwelsom bethau a oedd yn gweithio'n dda, yn ogystal â meysydd lle gellid gwneud mwy.

Roedd y digwyddiadau wedi'u trefnu'n dda ar y cyfan. Helpodd arddangosfeydd, cyflwyniadau ac amser trafod i esbonio'r cynigion. Roedd hwyluswyr yn annog pobl i ofyn cwestiynau a rhannu eu barn. Roedd pobl yn parchu ei gilydd yn gyffredinol, gan gynnwys pan oeddent yn anghytuno.

Mewn rhai lleoliadau, roedd hi'n anodd clywed cyflwyniadau neu sgyrsiau o amgylch y byrddau. Roedd rhai byrddau'n orlawn, a allai fod wedi'i gwneud yn anoddach i bawb ymuno. Mewn un digwyddiad, roedd sŵn eco a sŵn cefndir yn ei gwneud yn anodd i rai pobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw ddilyn y drafodaeth. Roedd dolen sain ar gael, ond ni wnaeth ddatrys y broblem yn llawn.

Nid oedd yn ymddangos bod cardiau post yr ymgynghoriad a welsom yn gofyn i bobl am wybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth na chynhwysiant. Gall y Bwrdd Iechyd gasglu'r wybodaeth hon mewn ffyrdd eraill. Heb y wybodaeth hon ar y cardiau post, fodd bynnag, gall fod yn fwy anodd deall barn pwy sydd wedi'i chynnwys yn yr ymatebion cardiau post.

Nid oedd staff y Bwrdd Iechyd yn cael eu gweld yn cymryd nodiadau o drafodaethau wrth fyrddau fel mater o drefn. Gallai pobl gyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, ond nid oedd yn glir sut byddai sylwadau, cwestiynau a syniadau eraill a rannwyd mewn sgwrs yn cael eu cofnodi a'u hystyried. Cododd Llais hyn gyda'r Bwrdd Iechyd ar wahân. Nid yw ein harsylwadau'n dweud wrthym a oedd sylwadau'n cael eu cofnodi mewn mannau eraill.

Roedd presenoldeb yn amrywio rhwng lleoliadau, ac roedd rhai digwyddiadau wedi denu cryn ddiddordeb. Ar draws y digwyddiadau, gofynnodd pobl a ellid cyflawni'r cynigion, a fyddai digon o staff, sut byddai teithio a gofal trawsffiniol yn gweithio, a sut byddai eu hadborth yn cael ei ddefnyddio. Roeddent eisiau gwybod beth fyddai'n cael ei gofnodi a sut byddai eu safbwyntiau'n cael eu hystyried.

Roedd cyfleoedd i bobl glywed am y cynigion a chymryd rhan mewn trafodaethau. Ond mae ein harsylwadau'n awgrymu y gellid gwneud mwy i wneud y digwyddiadau'n hygyrch, cofnodi'r hyn mae pobl yn ei ddweud a dangos sut mae pobl nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed yn cael eu cynnwys.

Y prif faterion a godwyd gan bobl

1. Cyrraedd gwasanaethau iechyd

Teithio oedd un o'r materion a godwyd amlaf gan bobl.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cwestiynu sut byddai cleifion, gofalwyr ac aelodau o'r teulu yn cael mynediad at wasanaethau pe bai gofal yn cael ei ddarparu o lai o safleoedd neu ymhellach o gartref.

Tynnodd pobl sylw at y canlynol:

- Teithiau hir ac amseroedd teithio mewn ardaloedd gwledig.
- Trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol gyfyngedig.
- Cost tanwydd ac a fyddai teithio'n fforddiadwy.
- Effaith amodau ffyrdd gwael yn ystod y gaeaf a chludiant cymunedol cyfyngedig ar gleifion, ymwelwyr a theuluoedd sy'n teithio i wasanaethau pellach.

- Anghenion pobl heb fynediad at gar.
- Yr effaith ar deuluoedd sydd eisiau ymweld â rhywun yn yr ysbyty, yn enwedig pan allent gael galwad frys i fynychu oherwydd bod anwylyd yn nesáu at ddiwedd ei oes.
- Teithio ar draws ffin Cymru a Lloegr a throsglwyddiadau ambiwlans.

Dywedodd pobl nad yw pellter ar ei ben ei hun yn dangos mor hawdd yw cyrraedd gofal iechyd yng nghefn gwlad Powys. Mae amseroedd teithio, trafnidiaeth, cost ac a all pobl deithio pan fydd angen iddyn nhw wneud hynny i gyd yn bwysig. Buont yn siarad am deithiau hir, gwasanaethau bws cyfyngedig, ffyrdd yn ystod y gaeaf a chyrraedd adref yn ddiogel ar ôl cael triniaeth. Roedd teuluoedd hefyd yn poeni, pe bai gwelyau ymhellach i ffwrdd, y gallent ei chael hi'n anodd mynd i'r ysbyty'n gyflym pan fyddent yn cael galwad oherwydd bod rhywun yn nesáu at ddiwedd ei oes. Roedden nhw eisiau gallu treulio'r amser hwnnw gyda'u hanwyliaid.

2. Sicrhau bod y staff a'r gwasanaethau cynnal ar waith

Roedd pobl eisiau gwybod a ellid rhoi gwasanaethau yn y gymuned ar waith a'u cadw i fynd.

Ar draws trafodaethau am iechyd meddwl, iechyd corfforol a gofal brys, gofynnodd pobl:

- Sut y byddai mwy o nyrsys, gofalwyr a staff arbenigol yn cael eu recriwtio.
- A allai gwasanaethau cymunedol dyfu'n ddigon cyflym.
- A fyddai gofal cartref a gofal cymdeithasol ar gael.
- Sut byddai staff yn cael eu recriwtio a'u cadw mewn ardaloedd gwledig.
- A ellid cynnal y gwasanaethau arfaethedig yn y tymor hwy.

Roedd pobl yn croesawu'r nod o ddarparu mwy o ofal yn y cartref ac yn y gymuned. Ond roedden nhw'n cwestiynu a fyddai'r staff, y cyfleusterau a'r gefnogaeth yno pan fyddai eu hangen. Gofynnwyd pa mor gyflym y gallai timau cymunedol dyfu, pwy fyddai'n darparu ymweliadau a sut y byddai iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd. Dywedasant hefyd na ddylid disgwyl i ofalwyr di-dâl gymryd lle cymorth proffesiynol, ac na ddylid anwybyddu pobl heb gymorth teuluol.

3. Gwelyau ysbytai lleol a gofal yn nes at y cartref

Ysgogodd dyfodol gwelyau ysbytai cymunedol safbwyntiau cryf.

Esboniodd pobl sut y gall gwelyau lleol i gleifion mewnol gefnogi:

- Adsefydlu ar ôl triniaeth mewn ysbyty acíwt.
- Adferiad yn agos at deulu a ffrindiau.
- Gofal diwedd oes a gofal lliniarol.
- Pobl hŷn a phobl fregus.
- Pobl na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel gartref.

Gwelodd pobl fanteision osgoi aros yn ddiangen yn yr ysbyty a darparu mwy o ofal gartref. Ond roedden nhw'n cwestiynu a allai gwasanaethau cymunedol ddiwallu anghenion pawb neu gymryd lle gwelyau lleol. Roeddent yn poeni y gallai'r gwasanaethau presennol gael eu cwtogi cyn bod dewisiadau eraill yn barod ac yn gweithio'n dda. Gofynnwyd hefyd beth fyddai'n digwydd i gymorth adsefydlu a rhyddhau, gan gynnwys gwasanaethau fel Barod i Fynd Adref, a ble byddai pobl yn mynd pe na bai modd gofalu amdanynt yn ddiogel gartref neu pe na bai ganddynt fawr o gymorth teuluol. Mae manylion pob opsiwn yn bwysig.

4. Gwasanaethau gofal brys a diagnostig

Roedd pobl eisiau gwybod sut beth fyddai gofal brys yn ymarferol o dan yr opsiynau arfaethedig.

- Roedd eu cwestiynau'n cynnwys:
- Pa gyflyrau fyddai'n cael eu trin yn lleol.
- A fyddai profion pelydr X a phrofion diagnostig eraill ar gael.
- Lle gallai pobl fynd gyda mân anafiadau.
- Oriau agor.
- Sut byddai GIG 111 yn cysylltu â gwasanaethau lleol.
- Sut byddai gofal brys yn gweithio gyda gwasanaethau meddygon teulu ac adrannau achosion brys.

Roedd rhai o'r geiriau a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad yn anodd eu deall. Roedd pobl eisiau esboniadau clir o sut y byddai gwasanaethau'n gweithio a ble y dylent fynd mewn gwahanol sefyllfaoedd.

5. Ymgynghoriad clir ac agored

Gofynnodd pobl gwestiynau hefyd ynghylch sut mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

Roedden nhw eisiau deall:

- Sut cafodd yr opsiynau eu datblygu.
- A oedd opsiynau eraill yn dal i gael eu hystyried.
- Sut byddai adborth pobl yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.
- Pa dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynigion.
- A oedd penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud yn ymarferol.

Roedd pobl eisiau gwybod sut y byddai eu hymatebion yn cael eu defnyddio a sut y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud. Roeddent hefyd eisiau deall beth allai'r newidiadau ei olygu i'w cymunedau eu hunain. Roedd rhai'n cwestiynu a allai eu hadborth newid yr opsiynau a sut byddai'r effeithiau ar wahanol gymunedau'n cael eu pwyso a'u mesur.

Yr hyn y mae pobl wedi'i fynegi mewn gwahanol gymunedau

Llanfair-ym-Muallt - 14 Hydref 2026

Yn Llanfair-ym-Muallt, siaradodd pobl am y canlynol:

- Y cynnig i ddod â gofal iechyd meddwl cleifion mewnol i oedolion ac oedolion hŷn at ei gilydd ar un safle, ac a fyddai teithiau hirach, trafnidiaeth wledig gyfyngedig a thywydd y gaeaf yn ei gwneud yn anoddach i berthnasau a ffrindiau ymweld.
- A fyddai gan dimau argyfwng, staff arbenigol, mynediad at feddyginiaethau a chymorth ar ffurf noddfa ddigon o gapasiti, ac a fyddai dewisiadau cymunedol cryfach ar waith cyn i wasanaethau cleifion mewnol newid.
- Pryderon ynghylch lleihau nifer y gwelyau cymunedol i gleifion mewnol pan ystyriwyd bod y galw'n cynyddu, ochr yn ochr â chwestiynau ynghylch a oedd canolbwyntio'r ddarpariaeth yn angenrheidiol ac yn ddiogel.

- Nodwyd pryderon am oedi a throsglwyddo ambiwlansys, gan gynnwys sut byddai cleifion yn cael gafael ar ofal brys neu ofal cleifion mewnol pan fyddai gwasanaethau ymhellach i ffwrdd.
- Costau teithio i apwyntiadau a thriniaethau, gan gynnwys baich ariannol teithiau hirach.
- Sut byddai pobl heb gar, neu sy'n dibynnu ar deulu, cymdogion neu drafnidiaeth gymunedol, yn cyrraedd gwasanaethau ymhellach i ffwrdd.
- A fyddai profion diagnostig lleol ac asesiadau brys, gan gynnwys mynediad at wasanaethau pelydr-X a mân anafiadau, yn dal ar gael a lle byddai angen i bobl fynd o dan yr opsiynau arfaethedig.

Roedd pobl yn poeni am yr hyn y byddai'n ei olygu i ddod â gofal iechyd meddwl cleifion mewnol at ei gilydd ar un safle, lleihau nifer y gwelyau cymunedol a dibynnu mwy ar wasanaethau argyfwng a chymunedol. Gofynnwyd a fyddai gan y gwasanaethau hynny ddigon o staff a chapasiti, ac a fyddent yn barod cyn i wasanaethau cleifion mewnol newid. Buont hefyd yn siarad am deithiau hirach i deuluoedd, apwyntiadau a gofal brys, yn enwedig i bobl heb eu trafnidiaeth eu hunain. Mae'r nodiadau'n cofnodi'r cwestiynau a'r pryderon hyn; nid ydynt yn dangos a yw cefnogaeth gymunedol neu gefnogaeth argyfwng yn ddigonol ar hyn o bryd.

Machynlleth - 15 Hydref 2026

Ym Machynlleth, roedd y prif faterion yn cynnwys:

- Pellter ac ymarferoldeb teithio o Fachynlleth i'r Drenewydd ac Ysbyty Bronglais ar gyfer gofal cleifion mewnol, asesiadau brys a gwasanaethau eraill, yn enwedig i bobl heb gar.
- A ellid darparu mwy o wasanaethau diagnostig yn lleol, gan gynnwys pelydr-X, uwchsain a phrofion gwaed; mynegodd y rhai a oedd yn bresennol bryderon hefyd am y ddarpariaeth pelydr-X arferol gyfyngedig ym Machynlleth.
- Argaeledd gwasanaethau Cymraeg ac a allai pobl sy'n byw i ffwrdd o drefi mwy gael gafael ar gymorth yn eu dewis iaith.
- Sut byddai gofal yn cael ei gydlynu gyda darparwyr cyfagos ar draws ffin Cymru a Lloegr, gan gynnwys sut byddai cleifion yn cael gafael ar wasanaethau a sut byddai sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd.

- Y risg y gallai pobl nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau digidol neu wybodaeth ar-lein yn hawdd wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cael gafael ar ofal a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Pryder y gallai lleihau nifer y gwelyau lleol i gleifion mewnol ei gwneud yn anoddach cael mynediad at wasanaethau adsefydlu, rhyddhau o ysbytai mwy a gofal lliniarol neu ofal diwedd oes yn agos at y cartref.

Holodd pobl a oedd y cynigion yn rhoi digon o ystyriaeth i'r pellter o Fachynlleth i ganolfannau gwasanaeth eraill a'r anhawster o deithio ar gyfer gofal neu ymweld â theulu. Roeddent yn poeni am y posibilrwydd o golli gwelyau lleol, a allai gwasanaethau cymunedol gefnogi pobl yn ddiogel gartref, a mynediad at brofion, gan gynnwys pelydr-x arferol. Roeddent hefyd yn cyfeirio at wasanaethau Cymraeg ac anghenion y bobl sy'n byw bellaf oddi wrth drefi mwy.

Trefyclo - 19 Hydref 2026

Yn Nhrefyclo, roedd pobl yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Y posibilrwydd o leihau neu golli gwelyau ysbyty cymunedol lleol, er gwaethaf pryderon am y galw a'r angen am ofal cleifion mewnol i bobl nad ydynt yn gallu dychwelyd adref yn ddiogel.
- Gwerth dychwelyd i Drefyclo ar ôl triniaeth mewn man arall i wella'n agos at deulu a ffrindiau, a rôl gwelyau lleol mewn gofal adsefydlu, seibiant, lliniarol a diwedd oes.
- Sut byddai cleifion yn cael eu trosglwyddo rhwng Powys ac ysbytai yn Lloegr, gan gynnwys mynediad at driniaeth ac adsefydlu a threfniadau ar gyfer dychwelyd adref ar ôl cael eu rhyddhau.
- Effaith amodau ffyrdd gwael yn ystod y gaeaf a chludiant cymunedol cyfyngedig ar gleifion, ymwelwyr a theuluoedd sy'n teithio i wasanaethau pellach.
- Yr anhawster a'r gost i berthnasau sy'n ymweld â rhywun yn yr ysbyty os yw gofal cleifion mewnol ymhellach i ffwrdd, yn enwedig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig.
- A allai teithiau hirach a llai o fynediad at ofal brys lleol gynyddu'r ddibyniaeth ar ambiwlansys neu adrannau brys; roedd y rhain yn bryderon a godwyd, nid yn effeithiau pendant i'r dyfodol.

- Y newid graddol arfaethedig, a ddisgrifir yn y drafodaeth fel un a allai gymryd rhwng pump a deng mlynedd, a pha fesurau diogelu fyddai'n atal gwelyau lleol rhag cael eu lleihau cyn i staff, gofal cymdeithasol a dewisiadau cymunedol eraill fod yn barod.

Roedd pobl yn rhoi pwys mawr ar allu derbyn gofal cleifion mewnol yn lleol wrth i wasanaethau cymunedol gael eu datblygu. Roeddent yn disgrifio sut gall adsefydlu ac adfer yn agos at y teulu helpu, ac yn mynegi pryderon ynghylch yr hyn y gallai lleihau nifer y gwelyau ei olygu i bobl hŷn a phobl sy'n ddifrifol wael, gan gynnwys y rheini sydd angen gofal seibiant neu ofal diwedd oes. Gofynnwyd a ellid recriwtio digon o nyrsys, gofalwyr a chymorth gofal cymdeithasol, a sut byddai cleifion, teuluoedd ac ambiwlansys yn rheoli teithiau hirach, gofal trawsffiniol a theithio yn y gaeaf. Roeddent hefyd eisiau gwybod beth fyddai'n digwydd pe bai oedi gyda gwasanaethau eraill.

Llanfyllin - 21 Hydref 2026

Yn Llanfyllin, roedd pobl yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Pryder y gallai cael gwared ar welyau neu wasanaethau pelydr-X o'r Trallwng danseilio'r ysbyty ehangach ac arwain at ragor o golledion, gan gynnwys clinigau cleifion allanol, clinigau clyw neu glinigau gynaecoleg; gofynnodd pobl hefyd am eglurder ynghylch pa wasanaethau, fel darpariaeth arennol, fyddai'n parhau.
- A fyddai pobl yng ngogledd Powys yn dal i allu cael gafael ar welyau cleifion mewnol addas, cymorth adsefydlu a rhyddhau diogel, ac effaith teithio i'r Drenewydd neu leoliadau eraill.
- Y newidiadau arfaethedig i ddiagnosteg leol, gan gynnwys y cynnig i ddarpariaeth pelydr-X y Trallwng symud i'r Drenewydd, a chwestiynau am fynediad at brofion gwaed a phrofion eraill yn nes at adref.
- A fyddai modd darparu'r ymateb cymunedol brys arfaethedig, gan gynnwys ymateb o fewn dwy awr i gleifion addas, ar draws pentrefi anghysbell a pha staff, brysbennu a threfniadau wrth gefn fyddai ar gael.
- A ellid recriwtio digon o weithwyr gofal cartref a staff medrus, a sut byddai pobl ag anghenion cymhleth yn cael eu cefnogi pan na allai teuluoedd ddarparu gofal eu hunain.

- Pellter, cost a hygyrchedd teithiau o ogledd Powys i'r Drenewydd, Aberhonddu a gwasanaethau eraill, yn enwedig i bobl heb gar ac i aelodau o'r teulu sy'n ymweld â chleifion.
- Pryder y gallai newidiadau i welyau, pelydr X, mân anafiadau a gwasanaethau lleol eraill gyfuno i leihau'r ystod o ofal sydd ar gael yn y Trallwng a'r cyffiniau.

Roedd pobl eisiau esboniad clir, fesul opsiwn, o'r hyn a fyddai'n aros yn y Trallwng a beth allai symud neu newid. Gofynnwyd a fyddai pobl yng ngogledd Powys yn dal i allu cyrraedd gwelyau, adsefydlu, profion a gofal brys, ac a allai gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol ateb unrhyw alw ychwanegol. Roeddent yn poeni y gallai colli nifer o wasanaethau gael effaith gyfun ar y gofal sydd ar gael yn lleol, yn ogystal â chynyddu costau teithio a phwysau ar staff.

Crucywel - 27 Hydref 2026

Yng Nghrucywel, roedd pobl yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Yr anhawster ymarferol o gyrraedd gwasanaethau heb gar preifat, gan gynnwys dibyniaeth ar deulu neu gymdogion, siwrneiau bws traws-sirol hir a theithio yn y gaeaf.
- A fyddai lleihau nifer y gwelyau lleol i gleifion mewnol yn cynyddu'r pwysau mewn mannau eraill neu'n gadael pobl heb wely addas ar gyfer adsefydlu, seibiant neu ofal diwedd oes, yn enwedig os na ellid eu cefnogi'n ddiogel gartref.
- A fyddai'r staff, y gofal cymdeithasol a'r cymorth ymarferol sydd eu hangen i ddarparu'r model Barod i Fynd Adref ym Mronllys ar gael, ac a allai ddiwallu anghenion pobl heb gymorth teuluol.
- Y crynodiad arfaethedig o ofal iechyd meddwl arbenigol i gleifion mewnol ar un safle, gan gynnwys yr effaith ar ymweliadau teuluol, amseroedd aros, llwybrau argyfwng ac ôl-ofal, ac argaeledd cymorth cymunedol ar draws gogledd a de Powys.
- Ansicrwydd ynghylch pa fwrdd iechyd y dylai pobl gysylltu ag ef i gael gofal neu gyngor, sut y byddai gwasanaethau'n cydlynu ar draws y ffin ac a ellid rhannu cofnodion cleifion yn ddibynadwy.

Mynegodd pobl bryderon ymarferol ynghylch teithio a mynediad, a gofynnwyd a fyddai llai o welyau cleifion mewnol yn golygu gwasanaethau diogel wedi'u staffio'n briodol yn y gymuned. Roeddent am wybod beth fyddai'n digwydd i bobl na ellid gofalu amdanynt yn ddiogel gartref, sut y byddai teuluoedd yn cadw mewn cysylltiad â chleifion, ac a fyddai cymorth argyfwng iechyd meddwl a chymorth ôl-ofal ar gael ledled Powys. Gofynnwyd hefyd sut y gallai newidiadau effeithio ar gymunedau cyfagos, gan gynnwys Ystradgynlais, ac a fyddai profiadau gwahanol y cymunedau yn cael eu hystyried yn deg. Roedd nodiadau Llais hefyd yn cofnodi profiadau cadarnhaol o wasanaethau presennol ac ymgysylltiad defnyddiol gan staff y Bwrdd Iechyd.

Digwyddiad Gwybodaeth Ar-lein - 29 Hydref 2026

Yn y digwyddiad gwybodaeth ar-lein, roedd pobl yn canolbwyntio ar y canlynol:

- A ellid darparu'r modelau cymunedol ac yn y cartref arfaethedig yn ymarferol, gyda digon o staff, gofal cymdeithasol, cyllid a seilwaith ar waith cyn i'r gwasanaethau presennol newid.
- Effaith teithiau hirach ar gleifion a theuluoedd, gan gynnwys tybiaethau teithio, mynediad i bobl heb geir ac ymarferoldeb cyrraedd gwasanaethau ledled Powys wledig.
- A allai Ysbyty yn y Cartref ddiwallu anghenion pobl yn ddiogel a beth fyddai'n digwydd i'r rhai na ellid gofalu amdanynt gartref, ochr yn ochr â chwestiynau am nifer a lleoliad gwelyau ysbytai cymunedol yn y dyfodol.
- A oedd yr opsiynau wedi cael eu dewis yn deg, a oedd opsiynau eraill yn dal ar agor a sut gallai adborth gan y cyhoedd ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol.
- Y bwriad i gyfuno cyfleusterau iechyd meddwl i gleifion mewnol, yr effaith ar gyswllt teuluol a rôl a chapasiti cymorth yn y gymuned, cymorth argyfwng a'r trydydd sector yn y dyfodol.
- Sut byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hariannu, a oedd y gweithlu a'r modelau gwasanaeth yn fforddiadwy dros y tymor hwy a sut byddai gwerth am arian yn cael ei asesu.

Holodd pobl am y dystiolaeth y tu ôl i'r cynigion, staffio, tybiaethau teithio, amserlenni a sut byddai eu hadborth yn effeithio ar benderfyniadau. Roeddent yn arbennig o bryderus y byddai angen i wasanaethau cymunedol, Ysbyty yn y Cartref a digon o staff fod ar waith cyn i'r gwasanaethau presennol gael eu cwtogi neu eu symud. Gofynnwyd hefyd sut roedd yr opsiynau wedi cael eu dewis, a oedd dulliau eraill yn dal yn bosibl a sut gallai cymunedau ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol.



Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan:

Edrychodd Llais hefyd ar b'un a allai pobl gael mynediad i'r digwyddiadau a chymryd rhan ynddynt.

Roedd y materion y sylwom arnynt yn amrywio yn ôl lleoliad ac yn cynnwys:

Clywed a sain

- Mewn rhai lleoliadau, roedd sŵn eco a sŵn cefndir yn ei gwneud yn anodd clywed a dilyn trafodaethau. Weithiau roedd yn rhaid ailadrodd cwestiynau ac atebion, ac nid oedd dolenni sain bob amser yn datrys y broblem.
- Roedd rhai pobl yn cael trafferth clywed trafodaethau wrth fyrddau penodol.

Gwybodaeth mewn fformatau hygyrch

- Roedd rhai pobl hefyd yn cael trafferth defnyddio'r holiadur ar-lein. Adroddwyd nad oedd llyfryn yr ymgynghoriad ar gael mewn llyfrgell leol (Crucywel).
- Gofynnodd pobl a oedd gwybodaeth addas ar gyfer plant a phobl ifanc ar gael.
- Cododd pobl gwestiynau am gyfleoedd i gymryd rhan yn Gymraeg.

Deunyddiau cyflwyno ar-lein

Yn y digwyddiad gwybodaeth ar-lein, roedd rhai sleidiau'n cynnwys llawer o fanylion ac roedd y testun yn rhy fach i'w ddarllen yn glir ar y sgrin mewn mannau. Roedd hyn yn ei gwneud yn anoddach i bobl ddilyn y wybodaeth a rhoi sylwadau yn ystod y sesiwn. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu'r sleidiau ar ei wefan. Mae'r arsylwad hwn yn ymwneud â pha mor glir y gallai pobl weld ac ystyried y sleidiau yn ystod y digwyddiad byw.

Sut cafodd y digwyddiadau eu cynnal

- Teimlai rhai pobl nad oedd digon o amser i ofyn cwestiynau.
- Mewn rhai sesiynau, teimlai pobl fod y drafodaeth yn gyfyngedig neu fod y cynigion eisoes wedi'u penderfynu.
- Roedd y profiad yn amrywio rhwng lleoliadau a byrddau trafod. Roedd rhai trafodaethau'n adeiladol, tra bod eraill yn cynnwys rhwystredigaeth ynghylch materion penodol.
- Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch allgáu digidol a sicrhau bod pobl nad oeddent yn gallu mynychu digwyddiadau yn dal i allu cyfrannu.

Beth ysgrifennodd pobl at Llais

Ym mis Hydref, derbyniodd Llais 16 eitem o ohebiaeth am Gwella Gyda'n Gilydd. Ysgrifennodd pobl am lawer o'r un materion a godwyd yn y digwyddiadau, gan gynnwys:

- Pwysigrwydd gwelyau mewn ysbytai cymunedol lleol a mynediad at adsefydlu, adferiad a gofal diwedd oes yn agos at y cartref.
- Teithiau hirach, trafnidiaeth gyfyngedig a'r effaith ar gleifion, teuluoedd a gofalwyr os bydd gwasanaethau'n symud ymhellach i ffwrdd.
- Pryderon y gallai gwelyau sydd eisoes dan bwysau a lleihau darpariaeth leol arwain at arosiadau hirach neu fwy o bobl yn cael eu lleoli y tu allan i Bowys.

- Yr angen i wasanaethau cymunedol, gofal cymdeithasol a digon o staff fod ar gael cyn cwtogi'r gwasanaethau presennol.
- Cwestiynau ynghylch a yw'r ymgynghoriad yn hygyrch ac yn agored, a sut bydd adborth pobl yn cael ei ystyried.
- Mynediad at gymorth Iaith Arwyddion Prydain a gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.
- Ysgrifennodd pobl o ardal Llanidloes atom ynghylch dyfodol gwelyau cleifion mewnol yn Ysbyty Llanidloes a beth allai'r newidiadau ei olygu i'w cymuned. Pwysleisiwyd yr angen i ddeall yr effaith ar deithio a mynediad at wasanaethau cyn gwneud penderfyniadau.

Materion a godwyd gan Llais gyda'r Bwrdd Iechyd

Yn ogystal â gwrando ar bobl mewn digwyddiadau a thrwy ohebiaeth, fe wnaethom godi materion yn uniongyrchol gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod mis Hydref. Fe wnaethom rannu profiadau pobl, yr hyn roeddem wedi'i arsylwi a chwestiynau ynghylch sut byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd ystyried y materion hyn wrth i'r ymgynghoriad barhau.

Drwy roi sylwadau mae Llais yn dod â mater, pryder neu dystiolaeth o brofiadau pobl yn ffurfiol i sylw gwasanaeth neu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'n esbonio pam mae'r mater yn bwysig ac yn gofyn iddynt ei ystyried. Mae cais am wybodaeth yn wahanol. Mae'n gofyn cwestiwn penodol neu'n chwilio am ffeithiau i helpu Llais a'r cyhoedd i ddeall cynnig neu sut mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

Yn ystod mis Hydref, fe wnaethom godi'r materion canlynol gyda'r Bwrdd Iechyd:

- **5 Hydref -** Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad canol cyfnod o'r ymgynghoriad. Roeddem wedi gofyn cwestiynau ynghylch pwy a gyrhaeddwyd, a oedd pobl wedi cael cyfleoedd teg i gymryd rhan, ansawdd y dystiolaeth a oedd yn cael ei chasglu, bylchau yn yr wybodaeth a sut byddai ymatebion yn cael eu defnyddio.

- **23 Hydref -** Fe wnaethom ofyn sut byddai sylwadau, cwestiynau a syniadau amgen a rennir mewn digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cofnodi, eu dadansoddi a'u cynnwys yn nhystiolaeth yr ymgynghoriad.
- **23 Hydref -** Aethom ar drywydd hyn gan nad oedd yn ymddangos bod trafodaethau mewn digwyddiadau'n cael eu cofnodi na'u crynhoi fel mater o drefn. Gofynnwyd sut byddai'r Bwrdd Iechyd yn dangos yr hyn a glywyd ac yn nodi ac yn adrodd ar themâu cyffredin.
- **23 Hydref -** Daethom â phryderon mynych at ei gilydd ynghylch a ellid cyflawni'r cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys staffio, gofal cymdeithasol, seilwaith, amserlenni, parodrwydd awdurdodau lleol, gofal trawsffiniol ac a oedd dewisiadau eraill yn cael eu hystyried.
- **28 Hydref -** Fe wnaethom ofyn am wybodaeth am hyfforddiant sy'n gysylltiedig â rhannau o'r model gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys sut roedd y gweithgaredd hwn yn gysylltiedig ag ymgynghoriad a oedd yn dal ar y gweill.

Roedd y materion hyn yn adlewyrchu pryderon a fynegwyd gan bobl yn y digwyddiadau, gan gynnwys:

- sut bydd adborth yn dylanwadu ar benderfyniadau;
- a oes modd darparu'r gwasanaethau arfaethedig;
- cyfyngiadau o ran y gweithlu a seilwaith;
- realiti teithio a mynediad yng nghefn gwlad;
- a'r angen am broses ymgynghori glir ac agored.

Gofynnodd Llais hefyd i'r Bwrdd Iechyd am bresenoldeb yn y digwyddiad gwybodaeth ar-lein ar 29 Hydref. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod 25 o bobl wedi cofrestru a 21 wedi mynychu, gan gynnwys cyflwynwyr a gwesteiwyr. Cadarnhaodd y gallai'r platfform ddal hyd at 10,000 o bobl ac nad oedd neb yn cael ei atal rhag ymuno oherwydd cyfyngiadau capasiti. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod archebion fel arfer yn cau ddau ddiwrnod gwaith cyn digwyddiad er mwyn iddo allu anfon cyfarwyddiadau ymuno, delio â chwestiynau a gyflwynir ymlaen llaw a threfnu cymorth iaith neu fynediad. Dywedodd hefyd fod y recordiad wedi cael ei anfon at bobl a oedd wedi cofrestru ar 30 Hydref a'i roi ar ei wefan. Mae'r ffigurau hyn yn dweud wrthym am gofrestriadau a phresenoldeb, ond nid ydynt yn dangos faint o bobl oedd â diddordeb ond nad oeddent wedi cofrestru nac wedi mynychu.

Gwybodaeth arall y mae Llais wedi gofyn amdani

Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Bwrdd Iechyd am ei waith allgymorth a sut roedd pobl yn cael eu recriwtio i'r Fforymau Dinasyddion. Roeddem am ddeall sut roedd yn canfod ac yn cefnogi pobl a chymunedau nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed mewn ymgynghoriadau.

Gofynnwyd sut roedd y Bwrdd Iechyd yn casglu ac yn edrych ar wybodaeth am amgylchiadau pobl, nodweddion gwarchodedig ac anghenion iechyd cynhwysiant. Gofynnwyd hefyd sut y byddai'n gwybod a oedd yr ymgynghoriad yn clywed gan y bobl y mae anghydraddoldebau iechyd yn effeithio fwyaf arnynt.

Mae'r cwestiynau hyn yn bwysig ym Mhowys, lle gall natur wledig, trafnidiaeth gyfyngedig, allgáu digidol ac arwahanrwydd cymdeithasol ei gwneud yn anoddach i bobl gymryd rhan. Roeddem eisiau deall sut roedd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd pobl y tu hwnt i'r rheini a allai ei chael hi'n hawsaf cymryd rhan.

Mae'r ceisiadau hyn am wybodaeth yn wahanol i sylwadau. Maen nhw'n gofyn am ffeithiau neu eglurhad er mwyn i ni allu deall sut mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal. Mae sylwad yn nodi mater neu bryder y mae Llais yn credu bod angen i'r Bwrdd Iechyd ei ystyried. Mae'r naill a'r llall yn helpu i sicrhau bod profiadau pobl ac anghenion cymunedau Powys yn cael eu clywed.

Beth mae hyn yn ei olygu

Roedd pobl yn barod i siarad am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gallent weld manteision posibl mewn gofal cymunedol cryfach, atal a chymorth cydgysylltiedig gwell.

Ond roedd pobl yn glir bod angen i gynlluniau weithio'n ymarferol. Maent am wybod y bydd staff, gofal cymdeithasol, cludiant, cymorth mewn argyfwng, gwasanaethau diagnostig a gofal cymunedol ar gael ac yn gweithio ymhell cyn i'r gwasanaethau presennol gael eu cwtogi.

Dywedodd pobl fod yn rhaid i unrhyw newidiadau ystyried bywyd yng nghefn gwlad Powys. Mae amseroedd teithio, trafnidiaeth, daearyddiaeth a chymorth teulu i gyd yn effeithio ar allu rhywun i gael y gofal sydd ei angen arno. Mae pobl eisiau gweld eu profiadau a'u gwybodaeth leol yn cael eu hystyried wrth i'r Bwrdd Iechyd wneud penderfyniadau. Bydd Llais yn parhau i wrando, yn mynegi'r materion y mae pobl yn eu rhannu â ni ac yn dweud wrth gymunedau sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb.

Felly, beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o sgwrs barhaus. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf bob mis â'r Bwrdd Iechyd a chymunedau ledled Powys. Byddwn yn parhau i wrando, casglu profiadau pobl a dod â'u barn a'u pryderon i'r broses Gwell Gyda'n Gilydd. Pan fydd angen codi materion yn ffurfiol, byddwn yn cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd Iechyd ac yn cyhoeddi'r rhain ochr yn ochr â'i ymatebion. Bydd hyn yn helpu pobl i weld yr hyn rydyn ni wedi'i godi, yr hyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i ddweud a'r hyn sydd heb ei ddatrys.

Byddwn yn parhau i wrando wrth i'r cynigion ddatblygu, gan gynnwys ar y bobl y gallai'r newidiadau effeithio fwyaf arnynt. Byddwn yn adrodd yn ôl i gymunedau wrth i'r broses fynd rhagddi. Os bydd pryderon yn dal heb eu datrys, byddwn yn dweud hynny. Os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg neu os bydd cynigion yn newid, byddwn yn adlewyrchu hynny yn ein diweddariadau.

Rhaid i leisiau pobl olygu mwy na chael eu clywed. Mae angen ystyried eu profiadau a'u pryderon cyn gwneud penderfyniadau. Mae angen i bobl wybod hefyd y bydd unrhyw ddewisiadau eraill yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gweithio'n effeithiol cyn i wasanaethau presennol gael eu cwtogi neu eu tynnu'n ôl. Bydd Llais yn cadw profiadau pobl mewn golwg, yn sicrhau bod eu pryderon yn cyrraedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn dangos i gymunedau sut mae'r pryderon hynny wedi cael eu hateb.



Cadwch mewn cysylltiad

Rydyn ni eisiau parhau i glywed gan bobl ledled Powys. Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn neu'r ymgynghoriad Gwell Gyda'n Gilydd, cysylltwch â ni.

E-bost: bettertogetherpowys@llaiscymru.org

Dilynwch Llais ar Facebook: Llais Powys | Llais Cymru

Newyddion a diweddariadau Llais Powys: Ewch i wefan **Llais**https://www.llaiswales.org/in-your-area/powys

Hoffech chi gael diweddariadau yn y dyfodol?

Bydd y diweddariad hwn hefyd yn cael ei anfon at bawb ar ein rhestr o randdeiliaid. Os hoffech chi gael eich ychwanegu at y rhestr a chael y wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol, anfonwch e-bost at powysenquiries@llaiscymru.org